**Senedd Cymru | Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Welsh Parliament | Research Service**

# Hunanynysu disgyblion sy'n dod i gysylltiad â pherson sy'n cael canlyniad positif i brawf COVID-19

Y Pwyllgor Deisebau | 12 Ionawr 2021
Petitions Committee | 12 January 2021

**Cyfeirnod:** RS21/14837-1

**Rhif y ddeiseb:** P-05-1087

**Teitl y ddeiseb:** Rhowch derfyn ar ynysu torfol gan blant ysgol iach!

**Geiriad y ddeiseb:** Mae gorfodi plant i ynysu am 14 diwrnod yn gwneud cymaint o niwed i'w llesiant meddyliol a chorfforol, mae'n anghymesur â'r risg o ddod i gysylltiad â'r Coronafeirws yn y lle cyntaf.

Mae rhai plant yn dioddef eu trydydd cyfnod o ynysu mewn tri mis! Mae hyn yn cael mwy fyth o effaith andwyol ar blant ag anghenion ychwanegol neu o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhieni sy'n gweithio (nad ydynt yn ynysu) yn dioddef gan nad yw cyflogwyr bob amser yn cydymdeimlo yn ystod y cyfnod economaidd anodd hwn.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

Atebion:

Cyflwynwch brofion Coronafeirws sy'n rhoi canlyniad ar unwaith i blant ysgol sydd, o bosibl, wedi dod i gysylltiad â'r feirws. Mae hyn yn cael ei gyflwyno yn ein cartrefi gofal a'n meysydd awyr, felly pam nad oes modd gwneud hynny yn ein hysgolion?

Er mwyn lleihau'r risg, sef "canlyniad negatif anghywir", gellid cymryd y prawf ychydig o ddyddiau ar ôl yr achos posibl o ddod i gysylltiad â'r feirws.

Bydd unrhyw ostyngiad yn y cyfnod ynysu 14 diwrnod o fudd enfawr i'r plant.

Dylid nodi nad yw'r plant sy'n ynysu erioed wedi dod i gysylltiad â'r plentyn heintiedig (digwydd hyn yn aml mewn ysgolion uwchradd).

# 1. Crynodeb

Y sefyllfa bresennol, adeg ysgrifennu hyn, yw bod ysgolion yng Nghymru yn darparu addysg ar-lein tan 18 Ionawr 2021 a dim ond i blant gweithwyr allweddol a disgyblion agored i niwed y maent ar agor. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adolygu'r trefniadau ar ôl y dyddiad hwnnw.

# 2. Rôl 'swigod' mewn ysgolion a diben hunanynysu disgyblion

Fel yr amlinellir yn llythyr y Gweinidog, sail resymegol y gofyniad i ddisgyblion hunanynysu, pe bai rhywun yn eu 'swigen' yn cael canlyniad positif i brawf COVID-19, yw atal y feirws rhag trosglwyddo'n ehangach yn y gymuned.

Nod 'swigod' yw lleihau nifer y disgyblion y mae achosion COVID-19 mewn ysgolion yn tarfu ar eu haddysg. Ar gyfer disgyblion ysgol gynradd a grwpiau blwyddyn iau mewn ysgolion uwchradd, mae swigod yn fwy tebygol o fod yn ddosbarthiadau. Ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd hŷn, maent yn debygol o gynnwys grwpiau blwyddyn gyfan.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau gweithredol i ysgolion.

# 3. Datblygiadau ers ymateb y Gweinidog i'r ddeiseb

Ers llythyr y Gweinidog, ar 2 Rhagfyr 2020:

- Mae Llywodraeth Cymru **wedi lleihau hyd yr amser** y mae'n ofynnol i bobl hunanynysu, ar ôl dod i gysylltiad agos â rhywun sydd wedi cael canlyniad positif i brawf COVID-19, **o 14 diwrnod i 10 diwrnod** (cyhoeddwyd ar 9 Rhagfyr 2020).

- Penderfynodd y Gweinidog Addysg y dylai ysgolion uwchradd a cholegau roi'r gorau i addysg wyneb yn wyneb wythnos yn gynnar cyn y Nadolig, ar 11 Rhagfyr 2020, gan ddarparu addysg ar-lein ar gyfer wythnos olaf y tymor ysgol (cyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2020). Newidiodd y rhan fwyaf o ysgolion cynradd i addysg ar-lein sawl diwrnod cyn diwedd y tymor.
- Cytunodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar ddull cyffredin o ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y Nadolig, lle y byddai ysgolion yn cael hyblygrwydd yn ystod y pythefnos cyntaf o ran sut y maent yn darparu addysg (cyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2020). Y disgwyl oedd y byddai ysgolion yn darparu addysg wyneb yn wyneb i'r rhan fwyaf o'u disgyblion erbyn 11 Ionawr 2021, cyn i'r holl ddisgyblion ddychwelyd yn ystod y dyddiau cyn 18 Ionawr 2021.
- Fodd bynnag, yn dilyn dirywiad arall yn y lefelau trosglwyddo, niferoedd yr achosion a phwysau ar y GIG, argymhellodd pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU ar y cyd ar 4 Ionawr 2021 y dylai Lefel Rhybudd y DU newid o Lefel 4 i Lefel 5.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 4 Ionawr y **dylai ysgolion, colegau ac ysgolion annibynnol newid i addysg ar-lein tan ddydd Llun 18 Ionawr 2021. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n defnyddio'r cyfnod hwn i barhau i weithio gydag awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau i gynllunio ar gyfer gweddill y tymor.** Bydd ysgolion yn parhau i fod ar agor i blant gweithwyr allweddol a disgyblion agored i niwed.
- Ar 4 Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr newid i ddysgu ar-lein (heblaw am blant gweithwyr allweddol a disgyblion agored i niwed) tan hanner tymor mis Chwefror. Yn yr Alban, dim ond i blant gweithwyr allweddol a disgyblion agored i niwed y bydd ysgolion ar agor, gydag eraill yn dysgu ar-lein tan 29 Ionawr 2021.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddaru o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.